Cofnodion Cyngor nos Iau Hydref 7 2021 am 7pm
Presennol: M.Chapman, L.Roberts, E.R.Noble, C.Brewer, T.W.Jones,C.L.Price, M.L.Hughes,
Ymddiheuriadau. M.Skerrett
Cyfeiriodd y Cadeirydd at farwolaeth diweddar Tad Mike - roedd y Clerc eisoes wedi anfon gair o gydymdeimlad at Mike a Lona ar ran y Cyngor.

Lleoliad y cyfarfod yn y Pafiliwn Cymunedol, cytunodd pawb ei bod yn braf cael cyfarfod wyneb yn wyneb unwaith yn rhagor, roedd B.Valintine wedi sicrhau fod yr ystafell wedi'i gosod i gydfynd â rheolau Cofid ac wedi trefnu taflen o reolau ar gyfer pawb oedd yn bresennol. Roedd hi'n braf cael cwmni Glyn y cyfieithydd ar ran Cwmni Cyfieithu Cymunedol Llanrwst.

Cofnodion: Cadarnhawyd cofnodion 15.9.21, cynnig C.L.Price, cefnogi M.L.Hughes.

Heddlu. Dim i'w adrodd ond mae'r Heddlu yn parhau i alw yn y pentref yn rheolaidd.

Yr A470. Cadarnhaodd L.Roberts ei bod wedi trefnu cyfarfod 'Teams' gyda I.Tegid ar gyfer Hydref 14 am 6:30pm.

Cyngor Sir. L.Roberts yn trefnu cyfarfod safle gyda K.Jones ac I.Jones Dŵr Cymru - aros am ddyddiad pendant ar hyn o bryd, hefyd mae hi'n aros am ddyddiad ar gyfer cyfarfod 'Teams' gan NMWTRA i drafod gosod 'lanterni' newydd ar y polion trydan hyd yr A470.

Llwybrau. Clerc i gysylltu â Ioan Davies i holi a oes unrhyw waith/prosiectau ar y gweill yn yr ardal gan y Parc. Allt Cyfyng angen sylw.

Yr Orsaf. Dim i'w adrodd.

Pontydd yn yr Ardal. Mae L.Roberts yn cynnal cyfarfodydd rhithiol wythnosol gyda B.Shiland o CBSC i drafod Pont Sarn Ddu, mae preswylwyr Roman Bridge yn cael diweddariad uniongyrchol am y sefyllfa gan CBSC. Mae hi'n aros am ddyddiad gan G.Parry ar gyfer cyfarfod safle ar Bont Bwlch a Pont y Pant.

Cynlluniau.
Llys y Gwynt: Dim i'w adrodd.
9 Castle Terrace: Dim i'w adrodd.
Aber: Dim i'w adrodd.

Llifogydd. Dim i'w adrodd.

Scottish Power. Liz Roberts yn parhau i aros am ddyddiad cwblhau'r gwaith er mwyn gallu cael cyfarfod yn y pentref gyda K.Jones o CBSC a cynrychiolwyr o'r Parc a'r contractwyr i ddelio ac unrhyw gonsyrn ynglŷn â'r gwaith ar y ffordd.

NRW. Dim i'w adrodd.

Terfyn gyrru 20mya. Clerc wedi cysylltu â Dylan Jones CBSC dim atebiad hyd yma.

Dosbarthu'r Post. Clerc wedi anfon at y Cynghorydd A.Wynne, dim atebiad hyd yma. Gwybodaeth gan L.Roberts fod Cynghorwyr ardaloedd Conwy wledig wedi trafod y broblem ac wedi penderfynu cysylltu ac Aelodau Seneddol a Cynulliad yr ardal i ofyn iddynt i ymchwilio i fwriadau'r Post Brenhinol.

Drych ar y Bont. Clerc wedi cysylltu i ddweud ei fod wedi torri.

Coeden Nadolig. L.Roberts wedi gofyn i R.Cochran CBSC i wneud arolwg diogelwch ar y bocs a'r holl wifrau cysylltu ar gyfer y goeden Nadolig yng ngwyneb y rheolau newydd a chael adroddiad ganddo.

Toiledau. Holwyd tybed oedd goriadau ar gael i'r Cyngor? Cadarnhaodd L.Roberts ei bod yn ceisio trefnu cyfarfod gyda Steve neu drefniant Zoom - cyfle i ofyn am y goriadau i'r adeilad.

Y Gofgolofn. Y gwaith yn mynd yn ei flaen yn dda iawn, L.Roberts am ddiolch yn fawr iawn i C.Brewer am ei holl waith trefnu. Dylai'r gwaith plannu coed a bylbiau fod wedi'i gwblhau erbyn diwedd Hydref. Clerc yn awyddus i wybod hanes y meinciau, baint ohonynt fydd yn cael ei lleoli yn nhir y Gofgolofn? Liz yn dweud ei bod wedi cael cysylltiad gan aelod o deulu Minafon ynglŷn â'u mainc goffa hwy fel teulu. Cytunodd L.Roberts i gysylltu eto ag Iwan Tŷ Llwyd i atgyweirio'r ffens 'haearn cast'. Hefyd gofynwyd i'r Clerc i gysylltu ag E.Roberts i ofyn iddo gael golwg ar y wal fechan sy'n ffinio tir y Ddôl a wal y Gofgolofn a gofyn am amcan gyfrif ar gyfer ei hatgyweirio.

Y Fynwent. Cytunwyd i ofyn i G.Edwards roi amcan bris ar gyfer torri'r goeden yn y Fynwent. Clerc wedi derbyn amcan bris gan A.Minton ar gyfer y gwaith o gliro'r tir ger y Cwt Hers, cynigodd T.W.Jones gyda C.Brewer yn cefnogi a phawb o blaid y dylid derbyn y pris. Ni fydd disgwyl iddo gwblhau'r gwaith ar hyn o bryd. Cytunwyd i ofyn i Iwan Tŷ Llwyd gael golwg ar gyflwr y meinciau haearn yn y Fynwent. C.Jones wedi cynnig help gydag unrhyw waith plastro ar y Cwt Hers. Clerc i drefnu cyfarfod safle yn y fynwent gyda S.Teale i drafod cael gwybodaeth ganddo o ran cael cymorth ariannol gyda'r Gladdgell Plant a gwaith ar Cwt Hers

Ariannol. Rhoes y Clerc adroddiad am y sefyllfa bresennol i'r Aelodau a chytunwyd ar y biliau i'w talu, cynnig C.L.Price, cefnogi M.L.Hughes a pawb o blaid.

Gorsaf Roman. Deallwyd fod golwg mawr ar y safle a'r ffordd gan fod llawer o loriau a pheiriannau yn defnyddio'r safle.

Cyfarfodydd a Dyddiad y Cyfarfod nesaf: Cytunwyd y dylid cyfarfod nesaf Tachwedd 4, ? mis Rhagfyr - ond anelu i gyfarfod Ionawr, Chwefror a Mawrth.